Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS
Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn
70 Whitehall
Llundain

29 Hydref 2018

Annwyl Mr Lidington,

Cyfarfod y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit – 25 Hydref

Yn ystod ein cyfarfod yng Nghaerdydd ar 25 Hydref, gwnaethom ni, aelodau'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit, gytuno i ysgrifennu atoch i adrodd ar y gwaith y mae'r Fforwm wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac i dynnu eich sylw i rai o'r prif gasgliadau ac argymhellion a gyflwynwyd gan y pwyllgorau sy'n cael eu cynrychioli yn y Fforwm ar berthnasau rhynglywodraethol a pherthnasau rhyngseneddol.

Sefydlwyd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn dilyn argymhelliad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi yn ei adroddiad, 'Brexit: devolution', sef y dylid cryfhau strwythurau'r ddeialog ryngseneddol o fewn y DU.[1] Mae'r Fforwm yn dwyn ynghyd cadeiryddion a chynullwyr y pwyllgorau sy'n craffu ar faterion sy'n ymwneud â Brexit yn Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Nid oes cynrychiolwyr o Gynulliad Gogledd Iwerddon wedi gallu mynychu, gan fod y weithrediaeth rhannu pwerau yng Ngogledd Iwerddon wedi'i hatal dros dro ac nid yw'r Cynulliad yn sefyll, ond mae swyddogion o'r Cynulliad wedi bod yn bresennol fel sylwedyddion.

[1] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, paragraff 297–8

Mae'r Fforwm wedi cwrdd pum gwaith:

- 12 Hydref 2017 yn Nhŷ'r Arglwyddi
- 18 Ionawr 2018 yn Nhŷ'r Arglwyddi
- 26 Mawrth 2018 yn Senedd yr Alban
- 21 Mehefin 2018 yn Nhŷ'r Cyffredin
- 25 Hydref 2018 yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae cyfarfodydd y Fforwm wedi canolbwyntio'n benodol ar y goblygiadau i setliadau datganoli Deddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, cynnydd trafodaethau Erthygl 50, ac ar gyflwr presennol perthnasau rhynglywodraethol a rhyngseneddol yn system wleidyddol y DU.

Wedi ei hatodi i'r llythyr hwn mae crynodeb o gasgliadau ac argymhellion ar y materion hyn a gyflwynwyd gan bwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Thŷ'r Cyffredin, sy'n cael eu cynrychioli yn y Fforwm. Mae'r pwyllgorau yn parhau i archwilio'r materion hyn.

Rydym yn copïo'r llythyr hwn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Fusnes y Llywodraeth a Pherthnasau Cyfansoddiadol yn Llywodraeth yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn Llywodraeth Cymru, yr ydym hefyd yn pwyso arnynt i roi sylw i'r crynodeb hwn a chymryd rhan mewn deialog gyda'r Fforwm.

Gwelir o'r crynodeb hwn fod cred glir ymhlith y pwyllgorau nad yw dull gweithredu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (JMC) yn addas i'r diben. Mae aelodau o'r Fforwm wedi eu calonogi fod y Prif Weinidog a phrif weinidogion Cymru a'r Alban wedi cydnabod hyn yng nghyfarfod llawn y JMC ar 14 Mawrth 2018, ac rydym yn croesawu'r adolygiad o strwythurau a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y JMC sy'n cael ei gynnal. Mae'r Fforwm yn glir fod yn rhaid i'r adolygiad hwn ystyried safbwyntiau ac argymhellion y pwyllgorau amrywiol, a gwahoddir chi i ddechrau trafod â ni. Noder bod rhai pwyllgorau'n parhau i archwilio'r materion hyn fel rhan o'u gwaith craffu parhaus a gallent gyhoeddi argymhellion pellach, y dylid hefyd eu hystyried fel rhan o'r adolygiad. Rydym yn gobeithio y bydd yr adolygiad hwn yn arwain at ailwampio strwythurau'r JMC.

Nodwn fod nifer o bwyllgorau a gynrychiolir yn y Fforwm wedi argymell y dylid gwneud y strwythur ar gyfer perthnasau rhynglywodraethol o fewn y DU yn statudol. Mae rhai pwyllgorau hefyd wedi galw am adnoddau priodol (gan gynnwys ysgrifenyddiaeth barhaol) ac ymrwymiad gan gyfarfod llawn y JMC i gynnal cyfarfodydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Dylai'r adolygiad ystyried yr argymhellion hyn yn ofalus.

Nodwn hefyd y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y meysydd lle y mae angen safbwyntiau a fframweithiau cyffredin ledled y DU. Mae'n bwysig fod strwythurau a phrosesau diffiniedig ar waith yn y blynyddoedd i ddod i wneud penderfyniadau ar fframweithiau cyffredin. Mae angen mecanweithiau rhynglywodraethol a rhyngseneddol mwy effeithiol i archwilio hyn a goblygiadau ehangach ymadawiad y DU o'r UE ar y setliad datganoli a materion eraill sy'n peri gofid cyffredinol.

Bydd angen buddsoddiad sylweddol o adnoddau er mwyn sefydlu strwythur ar gyfer deialog rynglywodraethol o'r fath sy'n ennyn ffydd pob rhan o'r DU. Bydd hefyd yn gofyn am system drosolwg ddemocrataidd a seneddol. Cawn ein calonogi felly gan ddatganiad y llywodraeth, yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ar *'Devolution and Exiting the EU: reconciling differences and building strong relationships'*, fod Llywodraeth y DU yn croesawu gwaith craffu ar Senedd y DU a'r deddfwrfeydd sydd wedi eu datganoli o ran y gwaith parhaus ar fframweithiau cyffredin. Mae'n bryd trosi'r croeso hwnnw'n gamau gweithredu nawr: rydym ni, fel seneddwyr, yn ymbilio ar ein llywodraethau perthnasol, a'r awdurdodau yn neddfwrfeydd y Deyrnas Unedig, i weithio'n agos gyda phwyllgorau i ddatblygu system drosolwg ddemocrataidd o berthnasau rhynglywodraethol sy'n addas i'r Deyrnas Unedig ar ôl Brexit.

Mae cyfarfod nesaf y Fforwm wedi ei drefnu ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 14 Ionawr 2019. Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r llythyr hwn cyn y cyfarfod hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir,

Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol



David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Aelodau'n bresennol yn y Fforwm

Tŷ'r Cyffredin

Sir Bernard Jenkin AS, Cadeirydd y Pwyllgor Gweinyddu Cyhoeddus a'r Cyfansoddiad

Hywel Williams AS, Aelod o'r Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Anna McMorrin AS, Aelod o'r Pwyllgor Materion Cymreig

Tŷ'r Arglwyddi

Lord McFall of Alcluith, Uwch Ddirprwy Lefarydd

Lord Boswell of Aynho, Cadeirydd Pwyllgor Dethol yr UE

Lord Wallace of Tankerness, Aelod o Bwyllgor y Cyfansoddiad

yr Arglwydd Thomas o Gresffordd, Aelod o'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio

Lord Kirkwood of Kirkhope, Aelod o'r Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Elin Jones AC, Llywydd

Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

David Rees AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Senedd yr Alban

Bruce Crawford ASA, Cynullydd y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad

Adam Tomkins ASA, Dirprwy Gynullydd y Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad

Graham Simpson ASA, Cynullydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith

Atodiad: casgliadau ac argymhellion pwyllgorau

Pwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi

Gwnaeth Pwyllgor Dethol yr UE yn Nhŷ'r Arglwyddi ystyried materion a oedd yn ymwneud â pherthnasau rhynglywodraethol yn ei ymchwiliad i 'Brexit: devolution' yn 2017.[2] Mae Pennod 7 o'r adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017, yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'n crynhoi tystiolaeth a gasglwyd ar weithrediad y JMC ac, yn fwy penodol gan ystyried pwyslais yr adroddiad ar Brexit, y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) (JMC (Negodiadau'r UE)). Roedd yr holl dystiolaeth i'r Pwyllgor gan Lywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr academaidd yn awgrymu nad oedd y JMC (Negodiadau'r UE) wedi bod yn gweithredu'n effeithiol. O ran ffyrdd posibl o wella perthnasau rhynglywodraethol, argymhellodd y Pwyllgor y canlynol –

- Mae'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion wedi ei ailfywiogi gan Brexit, ac rydym hefyd yn croesawu sefydliad y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd). Nodwn, fodd bynnag, y pryderon a fynegwyd gan Weinidogion Cymru a'r Alban nad yw'r JMC (Negodiadau'r UE) yn cyflawni o ran ei gylch gorchwyl, ac mae'n amlwg nad yw pethau sylfaenol fel ei gyfarfodydd yn cael eu trin â pharch na'u trefnu'n effeithlon. Mae angen i hyn newid: os yw Llywodraeth y DU eisiau i'r JMC (Negodiadau Ewropeaidd) wneud cyfraniad defnyddiol, rhaid iddi roi cymorth priodol iddo, yn wleidyddol ac o ran adnoddau.[3]

- Yn fwy cyffredinol, nodwn nad yw'r JMC na'r JMC (Negodiadau Ewropeaidd) yn gyrff penderfynu, a chredir mewn rhai meysydd eu bod yn cael eu defnyddio i reoli anghytundebau yn hytrach na mynd i'r afael â

[2] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017

[3] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, paragraff 291

materion a dod o hyd i ddatrysiadau. Gwaethygir hyn gan y gred nad yw'r cyfranogwyr yn gwneud hyn mewn modd cyfartal.[4]

- Felly, rydym yn cefnogi barn y rhan fwyaf o'n tystion fod angen i Lywodraeth y DU wneud mwy i wneud y JMC (Negodiadau Ewropeaidd) yn effeithiol. Mae hyn yn golygu paratoi'n well, gan gynnwys trafodaethau dwyochrog cyn cyfarfodydd, rhaglen waith strwythuredig, mwy o dryloywder, a pharodrwydd i dderbyn bod y JMC (Negodiadau Ewropeaidd) yn fwy na siop siarad, hyd yn oed os nad yw'n gorff penderfynu ffurfiol – y dylid rhoi'r awdurdod iddo gytuno ar safbwyntiau cyffredin ar faterion allweddol sy'n effeithio ar alluoedd datganoledig mewn da bryd i lywio safle negodi Llywodraeth y DU.[5]
- Gan ystyried strwythur y gylchred negodi pedair wythnos a gyhoeddwyd ar gyfer y trafodaethau Brexit, argymhellwn ymhellach y dylid mabwysiadu rhaglen hirdymor o gyfarfodydd y JMC (Negodiadau Ewropeaidd), gyda'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ym mhedwaredd wythnos bob cylchred. Byddai hyn yn galluogi'r llywodraeth i adrodd ar y cynnydd yn y gylchred flaenorol, ac i nodi a chytuno ar safbwyntiau cyffredin ar faterion datganoledig sy'n codi yn y gylchred i ddod.[6]
- Nodwn yr awgrym gan lywodraethau Cymru a'r Alban y dylent gael sedd ar y bwrdd negodi â'r UE pan fod materion datganoledig yn cael eu trafod, ac y dylent fod 'yn yr ystafell' drwy'r amser. Rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i ymateb i'r awgrym hwn ar frys a, pha un bynnag, cyn i'r trafodaethau droi i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, lle y bydd

[4] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, 292

[5] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, paragraff 293

[6] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, paragraff 294

materion o ddiddordeb datganoli cryf, fel pysgodfeydd, yn debygol o godi.[7]

- Mae'r llywodraethau datganoledig, a rhai o'n tystion, wedi dadlau hefyd fod angen diwygiad sylfaenol i roi rôl fwy ffurfiol i'r sefydliadau datganoledig mewn penderfyniadau'r DU ar ôl Brexit, tebyg i rôl rhanbarthau a thaleithiau mewn systemau ffederal. Er y gallai fod manteision mewn cynigion o'r fath, byddai hyn yn ddiwygiad cyfansoddiadol pellgyrhaeddol, sy'n syrthio y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn a chylch gwaith y Pwyllgor hwn.[8]

[7] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, paragraff 295

[8] Pedwerydd Adroddiad Sesiwn 2017–19 Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, Brexit: devolution, HL 9, 19 Gorffennaf 2017, 296

Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi

Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ei adroddiad '*Inter-governmental relations in the United Kingdom*' yn 2015.[9] Daeth y pwyllgor i nifer o gasgliadau yn yr adroddiad, a chyflwynodd nifer o argymhellion ar gyflwr cyffredinol perthnasau rhynglywodraethol a'r gwaith craffu seneddol ar y mecanweithiau presennol. Cyflwynodd yr argymhellion canlynol ynghylch strwythur y JMC:

- Argymhellwn fod Swyddfa'r Cabinet, fel rhan o'i hadolygiad cyfredol o strwythurau rhynglywodraethol, yn ystyried ac yn adrodd ar y ffordd orau y gallai strwythur Cyd-bwyllgor Gweinidogion diwygiedig gael ei ddefnyddio i hwyluso gwaith llunio a chydlynu polisïau ar y cyd. Dylid gwneud darpariaethau i sicrhau y gall mentrau polisi ddod o'r gweinyddiaethau datganoledig, yn ogystal â Llywodraeth y DU.[10]

- Dylai'r llywodraeth ystyried a ddylai fframwaith perthnasau rhynglywodraethol gael ei osod mewn statud. Gallai statud o'r fath nodi bodolaeth ac aelodaeth y Cyd-bwyllgor Gweinidogion a'i is-bwyllgorau craidd, ynghyd â'r egwyddorion craidd sy'n rheoli'r perthnasau rhwng gweinyddiaethau. Gallai'r ddeddfwriaeth hon ddarparu fframwaith sylfaenol, ac o fewn hon byddai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'r concordatau adrannol yn parhau i nodi sut y byddai rhyngweithiadau rhynglywodraethol yn gweithio'n ymarferol.[11]

---

[9] Unfed Adroddiad ar Ddeg Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2014-15, 'Inter-governmental relations in the United Kingdom', HL146, 27 Mawrth 2015

[10] Unfed Adroddiad ar Ddeg Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2014-15, 'Inter-governmental relations in the United Kingdom', HL146, 27 Mawrth 2015, paragraff 70

[11] Unfed Adroddiad ar Ddeg Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2014-15, 'Inter-governmental relations in the United Kingdom', HL146, 27 Mawrth 2015, paragraff 86

- Mae'n hanfodol ein bod yn cael mwy o eglurder ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogion. Mae angen cadw cydbwysedd rhwng cyfrinachedd a didwylledd, ond nid yw'r prinder presennol o wybodaeth yn dderbyniol. Argymhellwn fod dyddiadau, lleoliadau a phrif eitemau agenda cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn cael eu cyhoeddi ynghynt o flaen llaw.[12]

- Pe bai fframwaith y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn cael ei roi ar safle statudol, dylai'r Senedd sicrhau bod angen cyhoeddi gwybodaeth ddigonol ar gyfer y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi gwaith craffu seneddol effeithiol ar berthnasau rhynglywodraethol.[13]

Dychwelodd y Pwyllgor Cyfansoddiad i'r mater hwn yn ei adroddiad 'The Union and Devolution'. Gwnaeth yr argymhellion canlynol yn yr adroddiad hwn:

- Mae sefydlogrwydd yr Undeb yn gofyn am reoli'r cydbwysedd rhwng undod ac amrywiaeth yn ofalus. Mae datblygiad datganoli yn y degawdau diwethaf, a'r 'bargeinion datganoli' sydd wedi ymddangos yn Lloegr, wedi amlygu amrywiaeth yn yr Undeb. Mae angen ymdrech wrthbwysol nawr i gefnogi a hybu undod. Dylai'r llywodraeth nodi strategaeth ar gyfer symud ymlaen â'r gwaith hwn.[14]

- Nodwn gasgliadau ein hadroddiad 2015 ar berthnasau rhynglywodraethol eto. Rhaid peidio â chaniatáu i strwythurau ffurfiol perthnasau rhynglywodraethol – yn benodol, y JMC – ddirywio i fforwm ar gyfer gwleidyddiaeth orchestol a symbylol sy'n pwysleisio gwahaniaethau, gwrthdaro a rhaniadau. Yn hytrach, dylid diwygio'r

[12] Unfed Adroddiad ar Ddeg Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2014-15, 'Inter-governmental relations in the United Kingdom', HL146, 27 Mawrth 2015, paragraff 184

[13] Unfed Adroddiad ar Ddeg Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2014-15, 'Inter-governmental relations in the United Kingdom', HL146, 27 Mawrth 2015, paragraff 186

[14] Degfed Adroddiad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2015-16, 'The Union and Devolution', HL 149, 25 Mai 2016, paragraff 283

JMC i hyrwyddo a rheoli cydweithrediad a chydlyniant rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.[15]

[15] Degfed Adroddiad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi ar Sesiwn 2015–16, The Union and Devolution, HL 149, 25 Mai 2016, paragraff 291

Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ym mis Chwefror 2018, gwnaeth Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Pwyllgor CLA') gyhoeddi adroddiad ar lywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.[16] Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau rhynglywodraethol cyfredol, diwygio perthnasau rhynglywodraethol, a deall datganoli gan weision sifil Whitehall. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gyfnewid gohebiaeth gyda Gweinidog Cyfansoddiad y DU o ran y pwynt olaf.[17]

Un o brif argymhellion yr adroddiad yw'r angen am gynhadledd y Llefarydd i asesu trefniadau cyfredol perthnasau rhynglywodraethol, gyda'r nod o helpu i fagu consensws ar ddiwygiad.[18] Gwnaeth yr adroddiad hefyd ragweld y gallai'r gynhadledd ystyried sut y gellid cryfhau'r Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit er mwyn sicrhau bod trafodaethau rhyngseneddol yn parhau ar ôl Brexit.

O ran ffyrdd posibl o wella perthnasau rhynglywodraethol, mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol: –

- Bydd y JMC yn cael ei gryfhau yn y tymor byr trwy: sicrhau bod y JMC(P) yn cyflawni swyddogaethau Uwchgynhadledd Penaethiaid Llywodraethol flynyddol, fel yr awgrymwyd yn 2016 gan Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol (PACAC) Tŷ'r Cyffredin; ychwanegu

[16] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018

[17] Gohebiaeth â Chloe Smith AS, Gweinidog y Cyfansoddiad

[18] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, Argymhelliad 5

pwyllgorau newydd i fformat cyfredol y JMC i ymdrin â'r farchnad sengl a masnach, ac yn benodol, i gytuno ar fframweithiau cyffredin.[19]

- Ar ôl Brexit, bod y JMC yn cael diwygiad sylfaenol er mwyn dod yn Gyngor y DU sydd: yn gorff penderfynu; yn gorff sydd â mecanwaith datrys anghydfod, cyflafareddiad a dyfarnu annibynnol; yn dryloyw ac yn atebol am ei holl swyddogaethau a gweithrediadau, yn enwedig o ran ei benderfyniadau.[20]

- Bod Llywodraeth y DU yn gosod perthnasau rhynglywodraethol ar safle statudol, fel yr awgrymwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiadol Tŷ'r Arglwyddi yn 2015 a chan Bwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin yn 2017.[21]

- Dylai'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (yn unol ag ymateb Llywodraeth y DU i Argymhelliad 2) a'r Canllawiau ar Ddatganoli: gael eu hailwampio'n drwyadl, gyda chydweithrediad rhwng holl lywodraethau'r DU, gyda'r nod o sefydlu llywodraethiant a rennir mewn cyswllt â'r dulliau sy'n cefnogi cyflawniad perthnasau rhynglywodraethol effeithiol a theg; fel rhan o'r gwaith ailwampio hwn, dylent fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gan alluogi pwyllgorau seneddol ledled y DU i wneud gwaith craffu arnynt; dylent gael eu hadolygu'n rheolaidd wedi hyn.[22]

---

[19] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, Argymhelliad 1

[20] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, Argymhelliad 3

[21] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, Argymhelliad 2

[22] Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, Chwefror 2018, Argymhelliad 4

Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (‘y Pwyllgor EAAL') wedi ystyried perthnasau rhynglywodraethol a rhyngseneddol o fewn y DU, cyn belled ag y maent yn ymwneud ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn ei adroddiad cyntaf, *Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd* ('yr adroddiad ar *y Goblygiadau i Gymru*'),[23] daeth y Pwyllgor EAAL i nifer o gasgliadau perthnasol.

Mae agweddau ar ei adroddiadau dilynol hefyd yn berthnasol, gan gynnwys ei waith ar Ddeddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a datblygiad cysylltiedig fframweithiau polisi cyffredin yn y DU.

Ymglymiad yn nhrafodaethau Erthygl 50

O ran trafodaethau Erthygl 50, argymhellodd y Pwyllgor EAAL y dylai Llywodraeth Cymru geisio cael ymglymiad llawn yn y gwaith o lywio safle negodi Llywodraeth y DU a chymryd rhan uniongyrchol yn y trafodaethau hynny sy'n ymwneud â meysydd datganoledig o gyfrifoldeb (neu faterion sy'n effeithio ar feysydd datganoledig o gyfrifoldeb) gan ddefnyddio model cyfrannu’r gweinyddiaethau datganoledig yn y Cyngor Gweinidogion trwy Gyd-bwyllgor Gweinidogion ('y JMC') Ewrop.[24]

---

[23] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017

[24] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, Argymhelliad 6

Diwygio strwythurau'r JMC

O ran strwythurau rhynglywodraethol y JMC, mynegodd y Pwyllgor EAAL amheuon ynghylch strwythur y JMC. [25]

Mae'r Pwyllgor EAAL yn credu bod angen trefniadau mwy cyfartal ar gyfer hwyluso perthnasau rhynglywodraethol o fewn y DU, a bod achos dros ddiwygio'r JMC er mwyn ei wneud yn Gyngor Gweinidogion y DU, ar sail egwyddorion partneriaeth a chydraddoldeb.[26]

Wrth adrodd ar Bapur Gwyn Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) wedi hyn, daeth y Pwyllgor EAAL i'r casgliad canlynol:

"Mae'n destun pryder ein bod yn mynd i mewn i gyfnod o drafod dwys am ddyfodol y Deyrnas Unedig yn ôl pob golwg heb gyd-ddealltwriaeth o'r gyfraith fel y mae nac am y ffordd y dylid cynnal perthnasau cyfansoddiadol yn y dyfodol o fewn y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd."[27]

Gwnaeth y Pwyllgor EAAL argymhelliad tebyg yn ei adroddiad ar ddyfodol polisi rhanbarthol Cymru, a galwodd ar Lywodraeth Cymru i barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am yr angen i gyflwyno cynigion ar gyfer strwythur rhynglywodraethol ffurfiol i gytuno ar ddyraniadau cyllido a datrys gwrthdaro gyda rhywbeth tebyg i 'Gyngor Gweinidogion' yn y DU.

Perthnasau rhyngseneddol

Mae'r Pwyllgor EAAL wedi bod yn ymwneud ag amrywiaeth o fentrau rhyngseneddol ac mae ganddo berthynas rhyngseneddol uniongyrchol a ffurfiol â phwyllgorau Ewropeaidd Senedd y DU o ran monitro sybsidiaredd.[28]

---

[25] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 220

[26] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 220

[27] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Papur Gwyn ar Fil y Diddymu Mawr: Goblygiadau i Gymru, Mehefin 2017, Casgliad 39

[28] Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru 21.9

Yn ei adroddiad, *y Goblygiadau i Gymru*, cydnabu'r Pwyllgor EAAL yr angen am ddull mwy cydlynol o graffu ar berthnasau rhynglywodraethol ac, yn benodol, y JMC (Negodiadau Ewropeaidd).[29]

Gwnaeth y Pwyllgor EAAL hefyd gefnogi ac annog datblygiad perthnasau rhwng y Cynulliad a holl ddeddfwrfeydd y DU.[30]

Wrth adrodd ar y trefniadau cydsynio deddfwriaethol newydd i'w sefydlu o dan Fil (Ymadael) yr Undeb Ewropeaidd (bryd hynny), daeth y Pwyllgor EAAL i'r casgliad y dylai pwyllgorau'r Cynulliad, trwy gysylltiadau rhyngseneddol sefydledig, geisio sefydlu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng deddfwrfeydd.[31]

Yn ogystal â hyn, daeth y Pwyllgor EAAL i'r casgliad y gallai cyfathrebu rhyngseneddol da sicrhau nad yw'r agwedd newydd hon ar y confensiwn cydsynio deddfwriaethol, confensiwn seneddol, yn dibynnu ar safbwyntiau llywodraethau yn unig.[32]

Yn yr un adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor EAAL gynnwys pennod ar berthnasau rhyngseneddol. Yn gyffredinol, daeth i'r casgliad canlynol:

"Mae gweithio gyda phwyllgorau yn neddfwrfeydd eraill y DU wedi bod yn rhan o'r broses graffu Ewropeaidd ers tro. Mae ystyried goblygiadau Brexit wedi dwysáu ac ehangu lefel yr ymgysylltiad rhwng deddfwrfeydd. Mae cyfle i adeiladu ar y perthnasau sy'n bodoli eisoes i gydgysylltu'r gwaith o graffu ar fframweithiau polisi cyffredin y DU, er budd pob gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig."

---

[29] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 283

[30] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 285

[31] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan, Mai 2018, Casgliad 5

[32] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Y cynnydd o ran cyflawni ein chwe amcan, Mai 2018, Casgliad 5

Y confensiwn cydsynio deddfwriaethol

Yn ei adroddiad, *y Goblygiadau i Gymru*, daeth y Pwyllgor EAAL i'r casgliad canlynol:

"Credwn y dylid ehangu'r confensiwn hwn er mwyn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad deddfwrfeydd datganoledig o dan amgylchiadau lle byddai camau anneddfwriaethol yn effeithio ar gymhwysedd datganoledig, er enghraifft yng nghyswllt cytuniadau masnach rhyngwladol. Byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r Undeb Ewropeaidd."[33]

Egwyddor sybsidiaredd

Yn ogystal ag ystyried strwythur y berthynas rhwng llywodraethau a deddfwrfeydd y DU, roedd y Pwyllgor EAAL wedi rhoi ystyriaeth gychwynnol i'r egwyddorion sylfaenol a allai reoli perthnasau ar ôl Brexit.

Oherwydd ei gyfrifoldeb dros fonitro sybsidiaredd yn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor EAAL wedi casglu ychydig o dystiolaeth ar golli'r egwyddor sybsidiaredd wrth adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Pwyllgor EAAL wedi dod i'r casgliad ei bod hi'n werth rhoi ystyriaeth bellach i fabwysiadu sybsidiaredd fel egwyddor sylfaenol ar gyfer perthnasau yn y DU ar ôl Brexit.[34] Mae'n bwriadu ystyried hyn ymhellach yn ei ymchwiliad cyfredol i *Gyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?*[35]

---

[33] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 314

[34] Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Goblygiadau i Gymru yn Sgil Gadael yr Undeb Ewropeaidd, Ionawr 2017, paragraff 260

[35] Gweler tudalen we'r ymchwiliad am ragor o wybodaeth: Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru: Beth fydd yn digwydd yn ystod cyfnod pontio Brexit?

Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban

Gwnaeth Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban ystyried perthnasau rhynglywodraethol fel rhan o'i waith ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Yn ei adroddiad interim ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil, gwnaeth y Pwyllgor gydnabod bod strwythur perthnasau rhynglywodraethol wedi cael eu cydnabod yn helaeth fel rhai nad ydynt yn addas at y diben. [36]

Gwnaeth y Pwyllgor nodi'r cynigion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Gweinidogion y DU, a allai o bosib gael ei sefydlu ar sail statudol a'i drefnu ar batrwm tebyg i Gyngor Gweinidogion yr UE. Byddai hyn yn cynnwys mecanwaith dyfarnu annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth annibynnol.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd glywed oddi wrth y Gweinidog dros Drafodaethau'r DU ar Le yr Alban yn Ewrop, a bwysleisiodd wneud penderfyniadau ar y cyd ac awgrymwyd y gallai fod amrywiaeth o ddatrysiadau. O ran cynigion Llywodraeth Cymru, awgrymodd y gallai system bleidleisio drwy fwyafrif cymwysedig efallai weithio o dro i dro, ond gallai fod yn rhy gymhleth ar droeon eraill.

Gwnaeth y Pwyllgor awgrymu bod angen gosod strwythur newydd o berthnasau rhynglywodraethol ar sail statudol, gan gynnwys sefydlu proses ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd, a bod y strwythur newydd hwn yn cael ei gefnogi gan ysgrifenyddiaeth annibynnol ac yn darparu mecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau yn annibynnol.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd argymell bod cydweithrediad rhyngseneddol yn elfen allweddol o graffu ar broses Brexit ac mae'n ystyried y bydd y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit yn ffurfio rhan ganolog o'r broses hon.

[36] Pwyllgor Cyllid a Chyfansoddiad Senedd yr Alban, 'Interim Report on the EU (Withdrawal) Bill LCM', 9 Ionawr 2018

Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cydweithio seneddol a chyfraniad penodol y Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit gan Bwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith yn ei adroddiad ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Dywedodd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith hefyd, o ystyried y rhaglen heriol a chymhleth ddisgwyliedig o is-ddeddfwriaeth, ei bod hi'n hanfodol i lywodraethau weithio ar y cyd er mwyn cyflawni'r rhaglen honno.

Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Pherthnasau Allanol Senedd yr Alban

Gwnaeth Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Pherthnasau Allanol Senedd yr Alban ystyried materion perthnasau rhynglywodraethol fel rhan o'i adroddiad 2017 ar benderfynu ar berthynas yr Alban â'r UE yn y dyfodol. [37] Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth yr Alban bob amser, i ryw raddau, wedi chwarae rhan ar y cyd â gweinidogion Llywodraeth y DU mewn trafodaethau â'u swyddogion cyfatebol mewn aelod-wladwriaethau eraill yng nghyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion. Mae Gweinidogion yr Alban wedi chwarae rhan mewn trafodaethau yn dilyn cytundeb blaenorol y DU am ei llinell drafod a chyfres o flaenoriaethau. Gwnaeth y Pwyllgor argymell y dylai'r egwyddor hon gael ei chymhwyso i'r cytundeb ymadael ac unrhyw gytundebau masnach rydd newydd.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd argymell, pan fydd y DU wedi cytuno ar ei safle negodi ac mae Erthygl 50 wedi'i thanio, ein bod yn argymell dod o hyd i ffyrdd i gynnwys Llywodraeth yr Alban a'i swyddogion yn y trafodaethau sy'n dilyn â'r UE, ar lefel uchel ac ar y manylion technegol. Bu ymwneud o'r fath yn gyffredin yn y gorffennol mewn meysydd megis pysgodfeydd, amaethyddiaeth, datblygu rhanbarthol, cydweithredu barnwrol ac ati yng Nghyngor y Gweinidogion a gweithgorau amrywiol. Ni ddylai Brexit fod yn wahanol.

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd argymell dod o hyd i ffyrdd i gynnwys Llywodraeth yr Alban mewn trafodaethau dwyochrog a phedairochrog ar fargeinion masnach yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys creu Cyd-bwyllgor Gweinidogol ar Fasnach Ryngwladol. Gallai hyn hefyd gynnwys swyddogion a sefydliadau'r llywodraeth megis corff Datblygu Rhyngwladol yr Alban yn cyfarfod yn rheolaidd â'u swyddogion cyfatebol yn y DU.

---

[37] Pedwerydd Adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Pherthnasau Allanol Senedd yr Alban 2017 (Sesiwn 5), Determining Scotland's future relationship with the European Union, SP 99.1, 5 Mawrth 2017

Yn olaf, o ran craffu ac atebolrwydd seneddol, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig fod y Cytundeb Ysgrifenedig a sefydlwyd yn ddiweddar yn cael ei ymestyn er mwyn sicrhau'r llif wybodaeth briodol o Lywodraeth yr Alban i'r pwyllgor seneddol hwn ac eraill pan fydd Erthygl 50 wedi cael ei thanio a hefyd mewn perthynas â thrafodaethau ar gytundebau masnach rydd yn y dyfodol.

Pwyllgor Datganoli (Pwerau Pellach) Senedd yr Alban (Sesiwn 4)

Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, gwnaeth Pwyllgor Datganoli (Pwerau Pellach) Senedd yr Alban ganolbwyntio craffu seneddol ar berthnasau rhynglywodraethol. [38] Gan ystyried rôl deddfwrfeydd mewn ystyried craffu ar berthnasau rhynglywodraethol, ceisiodd y Pwyllgor ddysgu o brofiad systemau ffederal a lled-ffederal. Gwnaeth y Pwyllgor gomisiynu ymchwil allanol ar oruchwylio deddfwriaethol perthnasau rhynglywodraethol yng Ngwlad Belg, Canada, yr Almaen, Sbaen, y Swistir ac Unol Daleithiau America. Daeth yr ymchwil i ddau gasgliad cyffredinol fel a ganlyn –

- Ymhob gwlad dan ystyriaeth, mae perthnasau rhynglywodraethol yn cael eu dominyddu gan weithrediaethau, gyda chyfleoedd cymharol gyfyngedig i seneddau ac aelodau seneddol ymgymryd â goruchwylio deddfwriaethol o brosesau, trafodaethau a chytundebau.
- Er gwaethaf y cyfyngiad cyffredinol hwn, mewn bron bob gwlad a archwiliwyd, mae rôl seneddau mewn craffu ar berthnasau rhynglywodraethol yn fwy na'r rôl sydd gan seneddau'r DU ar hyn o bryd o ran craffu ar berthnasau rhynglywodraethol y DU.

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd unrhyw fodel delfrydol o graffu seneddol ar berthnasau rhynglywodraethol i'w fabwysiadu o'r gwledydd y gwnaethant eu harchwilio. Fodd bynnag, mae ei ystyriaeth o arferion mewn awdurdodaethau eraill wedi ail-gadarnhau ei safbwynt fod angen gwell craffu yn y maes hwn a bod angen rhoi strwythurau a phrosesau penodol ar waith i hwyluso hyn.

[38] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Datganoli Senedd yr Alban (Pwerau Pellach) 2015 (Sesiwn 4), 'Changing Relationships: Parliamentary Scrutiny of Intergovernmental Relations', SP 809, 6 Hydref 2015

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, gwnaeth y Pwyllgor nodi dwy egwyddor allweddol –

- Tryloywder – mae'n rhaid i strwythur diwygiedig perthnasau rhynglywodraethol fod yn dryloyw a sicrhau bod gwybodaeth am gyfarfodydd, agendâu, amcanion polisi a gwneud penderfyniadau ar gael i'r cyhoedd.
- Atebolrwydd – rhaid iddynt gael eu hadeiladu i'r strwythurau a pherthnasau rhynglywodraethol diwygiedig ac mae'n rhaid i unrhyw gytundebau fod yn destun craffu seneddol.

Gwnaeth y Pwyllgor argymell cyflwyno Cytundeb Ysgrifenedig newydd ar oruchwylio seneddol o berthnasau rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth yr Alban a Senedd yr Alban. Gwnaeth Llywodraeth yr Alban dderbyn yr argymhelliad hwn.[39]

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno i ddarparu, cyhyd ag y bo'n ymarferol, hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw o leiaf fis cyn cyfarfodydd rhynglywodraethol a amserlennwyd, a fyddai'n caniatáu i'r pwyllgor perthnasol ystyried yr agenda a derbyn tystiolaeth gan Weinidogion cyn y cyfarfod. Ar ôl pob cyfarfod, mae Llywodraeth yr Alban wedi cytuno i ddarparu crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd.

[39] CYTUNDEB YSGRIFENEDIG PERTHNASAU RHYNGLYWODRAETHOL RHWNG SENEDD YR ALBAN A LLYWODRAETH YR ALBAN

Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin

Ym mis Medi 2017, gwnaeth y Pwyllgor lansio ymchwiliad i Brexit: amaethyddiaeth, masnach ac ail-wladoli pwerau. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad, *Brexit: priorities for Welsh agriculture*, ar 9 Gorffennaf 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys pennod yn ystyried cyfrifoldeb dros bolisi amaethyddiaeth, a oedd yn cynnwys y casgliadau a'r argymhellion canlynol ar berthnasau rhynglywodraethol:

- "We recognise the agreement between the UK and Welsh Governments on the approach of the European Union (Withdrawal) Bill to responsibility for areas of agricultural policy which will return to the UK post-Brexit. It is essential that any changes to the devolution settlement for Wales which result from Brexit are agreed with the Welsh Government, and not imposed by Westminster. It is regrettable that it took so long for this agreement to be reached."[40]

- "It is clear that, post-Brexit, UK-wide common frameworks will be required in some areas of devolved policy, to ensure there are no barriers within the UK market, that the UK is in compliance with international obligations and that the UK's common resources are protected. We welcome the agreement between the UK Government and devolved administrations about the areas where these will be necessary."[41]

- "UK-wide common frameworks could be established in a number of different ways, but it is still not clear where they will apply, what they will look like, how they will work, or how any disputes would be resolved. It is imperative that these frameworks are agreed mutually between the UK and devolved governments and ensure the unique issues that face each of the administrations are given due

[40] Brexit, priorities for Welsh agriculture, paragraff 33

[41] Brexit, priorities for Welsh agriculture, paragraff 39

consideration. We believe that these frameworks will need to be supported by robust and transparent intergovernmental mechanisms. *We urge the UK Government to work with the Welsh Government to agree on the areas of agricultural policy to which common frameworks will need to apply, and to establish how these will work, and the mechanisms for their governance. This should be done ahead of the Agriculture Bill being introduced in the UK Parliament. The UK Government should keep us updated on the timeframes for the establishment of common frameworks, to ensure that we have an opportunity to scrutinise these arrangements before they come into effect."*[42]

- "Post-Brexit the Welsh Government will have an increased interest in trade deals negotiated by the UK Government, and particularly their implications for devolved policy areas. Given the inter-dependencies between trade deals and devolved policy, there will need to be robust intergovernmental arrangements to ensure that Welsh interests, and the consequences of trade deals for devolved policy, are considered during negotiations. *We recommend that the UK Government agree with the Welsh Government arrangements for seeking the input and consent of the devolved institutions in Wales on trade deals."*[43]

[42] Brexit, priorities for Welsh agriculture, paragraff 44

[43] Brexit, priorities for Welsh agriculture, paragraff 48

Pwyllgor Materion Gogledd Iwerddon Tŷ'r Cyffredin

Yn sgil absenoldeb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar nodi anghenion Gogledd Iwerddon a sut y gall y rhain gael eu cynrychioli orau yn ystod proses Brexit. Roedd darn o waith mwyaf sylweddol y Pwyllgor ar oblygiadau Brexit ar gyfer Gogledd Iwerddon yn canolbwyntio ar y ffin tir rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, a chyhoeddwyd adroddiad ar hyn ar 16 Mawrth 2018. Gwnaeth y Pwyllgor hefyd edrych ar Brexit yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ar 22 Mai 2018, a ystyriodd ganlyniadau diffyg llywodraeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgor hefyd ar hyn o bryd yn cynnal dau ymchwiliad sy'n archwilio goblygiadau Brexit ar gyfer pysgodfeydd ac amaethyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon. Mae meysydd lle mae'r Pwyllgor wedi cyffwrdd ar berthnasau rhynglywodraethol – sydd wedi cwmpasu perthnasau â Gweriniaeth Iwerddon yn ogystal â pherthnasau rhwng Llywodraeth y DU a sefydliadau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon – yn cynnwys:

- Perthnasau Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon (yn yr adroddiad ffin tir): Pwysigrwydd cydweithredu rhwng y gogledd a'r de, sy'n cael ei hwyluso gan fframweithiau rheoleiddiol a chyrff llywodraethu a rennir.

- Perthnasau rhwng y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (yn sgil absenoldeb gweithrediaeth Gogledd Iwerddon): Nodi'r angen parhaus am berthynas â Gweriniaeth Iwerddon, fel y nodwyd yng Nghytundeb Belffast / Dydd Gwener y Groglith.

- Rôl y gwasanaeth sifil yng Ngogledd Iwerddon (yn yr adroddiad ar absenoldeb gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac yn y dystiolaeth ar bysgodfeydd): Bu gweision sifil Gogledd Iwerddon yn weithredol o ran cyfarwyddo trafodaethau am oblygiadau Brexit ar gyfer meysydd polisi datganoledig, ond bod absenoldeb y weithrediaeth wedi creu heriau.

- Dylunio fframweithiau cyffredin (mewn tystiolaeth ar bysgodfeydd ac amaethyddiaeth): Y posibilrwydd o weinyddiaethau datganoledig yn chwarae rhan wrth gyd-ddylunio fframweithiau cyffredin ar draws y DU.

Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin

Yn ei adroddiad ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)[44], gwnaeth y Pwyllgor Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd archwilio goblygiadau'r Bil ar gyfer y setliadau datganoli. O ran perthnasau rhynglywodraethol, gwnaeth y Pwyllgor nodi'r dystiolaeth roedd ei Bwyllgor rhagflaenol wedi derbyn yn y Senedd ddiwethaf nad oedd cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) wedi bod yn effeithiol o safbwynt y gweinyddiaethau datganoledig.[45] Aeth y Pwyllgor yn ei flaen i wneud y casgliad canlynol:

The future [inter-governmental] arrangements for the UK after leaving the EU will only be successful if they work for the whole of the UK. This will only be possible if there is mutual trust and cooperative, participative mechanisms for joint working between the UK Government and the devolved administrations. These mechanisms will be required not just to resolve issues relating to the repatriation of EU competencies, but also in the long term to ensure that devolved interests are properly considered when developing new international agreements.

We recommend that the JMC (EN) meets much more regularly and that it addresses the concerns expressed by the devolved administrations about the effectiveness of its operations. Government should also set out whether it is considering formal structures for inter-governmental relations, and its proposed arbitration system for disputes, so that the views of the devolved governments can be heard, including in any future trade agreements.[46]

Gwnaeth y Pwyllgor hefyd gyhoeddi adroddiad ar graffu seneddol a chymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a negodiadau ar berthynas yn y dyfodol lle roedd yn archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer craffu ar negodiadau ar

[44] Adroddiad Cyntaf, Sesiwn 2017–19, HC373
[45] Ibid. paragraff 78
[46] Ibid. paragraffau 78–79

berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol a hefyd trefniadau â gwladwriaethau nad ydynt yn rhan o'r UE yn y dyfodol.[47] Daeth i'r casgliad canlynol:

The UK's future trade agreement with the EU and negotiations on trade with non- EU states will have significant impacts on devolved policy areas and interests. As we said in our First Report, there needs to be cooperative, participative mechanisms for joint working between the UK Government and the devolved administrations to ensure that devolved interests are properly considered when entering into and developing new international agreements. We also asked the Government to set out whether it is considering formal structures for inter-governmental relations, including any arbitration system for disputes, so that the views of the devolved governments can be heard. The Government should set out in detail the processes by which the views of the devolved governments and parliaments will be fed into the negotiations on the UK's future relationship with the EU and on future trade agreements with non-EU states. The Government should also commit to seeking the views of the devolved parliaments as part of the process of seeking approval for the Withdrawal Agreement and Political Declaration. [48]

[47] Chweched Adroddiad, Sesiwn 2017–19, HC1240
[48] Ibid. paragraff 107

Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin

Gwnaeth y Pwyllgor lunio adroddiad, *European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution*, ym mis Tachwedd 2017.[49] O ran perthnasau rhynglywodraethol, gwnaeth yr adroddiad ganolbwyntio ar y trefniadau ar gyfer fframweithiau cyffredin, gan ddweud:

- Dylai meysydd lle y mae fframweithiau cyffredin yn berthnasol gael eu cytuno rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, yn seiliedig ar y cynsail y dylai'r holl bwerau gael eu datganoli oni bai fod rheswm da dros eu cadw.[50]

- Dylai cynnwys unrhyw fframweithiau cyffredin ar gyfer y meysydd hyn gael eu cytuno gyda'r gweinyddiaethau datganoledig, yn hytrach na chael eu gosod gan San Steffan.[51]

- Bydd angen peirianwaith rhynglywodraethol newydd er mwyn cefnogi unrhyw fframweithiau cyffredin.[52]

- Dylai Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig gytuno ar fecanwaith lle y gall anghydfodau gael eu datrys pe na bai fframweithiau cyffredin yn gallu cael eu cytuno.[53]

---

[49] Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution, HC 375, 19 Tachwedd 2017

[50] Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution, HC 375, 19 Tachwedd 2017, paragraff 17

[51] Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution, HC 375, 19 Tachwedd 2017, paragraff 22

[52] Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution, HC 375, 19 Tachwedd 2017, paragraff 22

[53] Adroddiad Cyntaf Pwyllgor Materion yr Alban Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, European Union (Withdrawal) Bill and its implications for devolution, HC 375, 19 Tachwedd 2017, paragraff 22

Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin

Gwnaeth y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol gyhoeddi ei adroddiad *Future of the Union part 2: inter-institutional relations in the UK* ym mis Rhagfyr 2016.[54] Yn ei adroddiad, daeth y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol i'r casgliad fod hen feirniadaeth o aneffeithiolrwydd strwythurau presennol Cyd-bwyllgor y Gweinidogion ac argymhellwyd eu bod yn cael eu diwygio, a bod y Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cael ei ailystyried.[55] Gwnaeth y Pwyllgor argymell bod cyfle delfrydol ar ddiwedd 2016 i fecanwaith ffurfiol perthnasau rhynglywodraethol yn y DU gael ei drwytho gan ymdeimlad o ddiben gyda Chyd-bwyllgor y Gweinidogion a oedd wedi cael ei ddiwygio a'i adfywio. [56] Gwnaeth y Pwyllgor argymell creu is-bwyllgorau ym meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd a materion economaidd. [57] Daeth y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol i'r casgliad hefyd fod cyfyngiadau ar yr effaith y gallai peirianwaith rhynglywodraethol ei chael ar ei ben ei hun a chan fod effeithiolrwydd unrhyw fodel o berthnasau rhynglywodraethol yn dibynnu ar allu'r pedair gweinyddiaeth i ddatblygu awyrgylch o ymddiriedaeth ac ewyllys da ar y cyd. Gwnaeth y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol argymell, er mwyn datblygu awyrgylch o ymddiriedaeth ac

---

[54] Chweched Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2016–17, The Future of the Union, part two: interinstitutional relations in the UK, HC 839, 8 Rhagfyr 2016

[55] Chweched Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2016–17, The Future of the Union, part two: interinstitutional relations in the UK, HC 839, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 48–50

[56] Chweched Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2016–17, The Future of the Union, part two: interinstitutional relations in the UK, HC 839, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 65

[57] Chweched Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2016–17, The Future of the Union, part two: interinstitutional relations in the UK, HC 839, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 66

ewyllys da o'r fath, fod yn rhaid i Lywodraeth y DU ddangos derbyngarwch diffuant i'r pryderon ac awgrymiadau a gyflwynir gan y gweinyddiaethau datganoledig. [58]

Gwnaeth y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol ddychwelyd at fater perthnasau rhynglywodraethol yn ei adroddiad *Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships*. Roedd yr adroddiad hwn yn adeiladu ar argymhellion blaenorol ac yn argymell ymhellach:

- "Devolution is now an established and significant feature of the UK constitutional architecture and should be treated with respect to maintain the integrity of the United Kingdom. The Government needs to bring clarity to the situation by setting out, in response to this report, its Devolution Policy for the Union. A document setting out the Government's Devolution Policy for the Union should be issued at the start of every Parliament. This policy should outline where the constitutional architecture of devolution needs to be buttressed or amended and should, where necessary, provide justification for asymmetry within the devolution settlement. While we accept that asymmetry may be necessary and even preferable within the UK context, the Government should explicitly recognise and be held accountable for representational and institutional asymmetries within the UK political system."[59]

- "the Government take the opportunity provided by Brexit to seek to develop, in conjunction with the devolved Administrations, a new system of inter-governmental machinery and ensure it is given a statutory footing. Doing this will make clear that inter-governmental

[58] Chweched Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2016–17, The Future of the Union, part two: interinstitutional relations in the UK, HC 839, 8 Rhagfyr 2016, paragraff 67

[59] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships, HL 1485, 31 Gorffennaf 2018, paragraff 21

relations are as important a part of the devolution settlement as the powers held by the devolved institutions."[60]

- "the JMC must be reformed. The new inter-governmental apparatus that emerges from this reform should ideally have an independent secretariat to schedule and organise intergovernmental meetings. The secretariat should also provide an independent conduit for discussions among administrations at official and ministerial level in between formal inter-governmental meetings."[61]

- "It is important that inter-governmental relations mechanisms have a clearly defined purpose and are not just arrangements for the airing of grievances. Common Frameworks should if possible be agreed by consensus and, if a consensus cannot be reached, each government should report the reasons for the failure to agree to their respective legislatures."[62]

- "that England should be better represented at inter-governmental meetings. In the short-term, the Government should develop proposals for including the metropolitan mayors and other local leaders in reformed inter-governmental mechanisms. For the long-term, the Government should consider establishing a committee which would represent English cities and counties and would have

[60] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships, HL 1485, 31 Gorffennaf, paragraff 132

[61] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships, HL 1485, 31 Gorffennaf 2018, paragraff 133

[62] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships, HL 1485, 31 Gorffennaf 2018, paragraff 135

representation on JMCs (or their replacement) to advocate the interests of all parts of England."[63]

[63] Wythfed Adroddiad Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin Sesiwn 2017–19, Devolution and Exiting the EU: Reconciling Differences and Building Strong Relationships, HL 1485, 31 Gorffennaf 2018, paragraff 137